



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 Rhif 550 (Cy.54)

2004 No. 550 (W.54)

**PROFFESIYNAU GOFAL
IECHYD A PHROFFESIYNAU
CYSYLLTIEDIG, CYMRU**

**HEALTH CARE AND
ASSOCIATED PROFESSIONS,
WALES**

Gorchymyn Proffesiynau Iechyd
Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo,
Hawliau a Rhwymedigaethau)
2004

The Health Professions Wales
(Transfer of Staff, Property, Rights
and Liabilities) Order
2004

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Sefydlir Proffesiynau Iechyd Cymru ("PIC") gan Orchymyn Proffesiynau Iechyd Cymru (Sefydlu, Aelodaeth, Cyfansoddiad a Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/551 (Cy.55)) at ddibenion ymgymryd â swyddogaethau ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â'r proffesiynau gofal iechyd a gweithwyr cymorth gofal iechyd.

Health Professions Wales ("HPW") is established by the Health Professions Wales (Establishment, Membership, Constitution and Functions) Order 2004 (S.I. 2004/551 (W.55)) for the purpose of undertaking functions on behalf of the National Assembly for Wales in relation to health care professions and health care support workers.

O dan adran 5 (2) o Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003, caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru at ddibenion galluogi neu gynorthwyo PIC i gyflawni swyddogaethau ar ran y Cynulliad, drwy orchymyn, drosglwyddo i PIC eiddo, hawliau a rhwymedigaethau a phersonau a gyflogir mewn cysylltiad ag unrhyw rai o'r swyddogaethau hynny.

Under section 5 (2) of the Health (Wales) Act 2003, the National Assembly for Wales may, by order, transfer to HPW, for the purposes of enabling or assisting HPW to carry out functions on behalf of the Assembly, property, rights and liabilities and persons employed in connection with any of those functions.

Mae'r gorchymyn hwn yn trosglwyddo'r tir a'r cynnwys sydd gan y Cynulliad ac a bennir yn yr Atodlen i PIC (erthyglau 2 a 3) a hefyd yn trosglwyddo staff penodol a gyflogir gan y Cynulliad i PIC (erthygl 4).

This order transfers the land and contents of the Assembly specified in the Schedule to HPW (articles 2 and 3) and also effect the transfer of certain staff employed by the Assembly to HPW (article 4).

2004 Rhif 550 (Cy.54)**2004 No. 550 (W.54)****PROFFESIYNAU GOFAL
IECHYD A PHROFFESIYNAU
CYSYLLTIEDIG, CYMRU****HEALTH CARE AND
ASSOCIATED PROFESSIONS,
WALES**

Gorchymyn Proffesiynau Iechyd
Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo,
Hawliau a Rhwymedigaethau)
2004

The Health Professions Wales
(Transfer of Staff, Property, Rights
and Liabilities) Order
2004

*Wedi'i wneud**2 Mawrth 2004**Made**2nd March 2004**Yn dod i rym**1 Ebrill 2004**Coming into force**1st April 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 5(2) ac 8 o Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003(a), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

The National Assembly for Wales, in exercise of powers conferred by sections 5(2) and 8 of the Health (Wales) Act 2003(a), hereby makes the following Order:

Enwi, cychwyn a dehongli

1.-(1) Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Proffesiynau Iechyd Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2004 a daw i rym ar 1 Ebrill 2004.

(2) Yn Gorchymyn hwn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall -

ystyr "cofnodion" ("*records*") yw unrhyw ddeunyddiau mewn pa bynnag ffurf neu gyfrwng sy'n cyfleu neu'n gallu cyfleu gwybodaeth ac y mae iddi strwythur wrth gyfeirio -

- (a) at unigolion neu at feini prawf sy'n ymwneud ag unigolion, yn y fath fodd fel bod gwybodaeth benodol sy'n ymwneud ag unigolyn penodol ar gael yn hwylus; neu
- (b) at unrhyw eiddo, hawliau neu rwymedigaethau gan y Cynulliad, yn y fath fodd fel bod gwybodaeth benodol sy'n ymwneud ag eiddo, hawliau neu rwymedigaethau ar gael yn hwylus;

ystyr "cyflogai perthnasol" ("*relevant employee*") yw person -

Title, commencement and interpretation

1.-(1) This order may be cited as the Health Professions Wales (Transfer of Staff, Property, Rights and Liabilities) Order 2004 and comes into force on 1st April 2004.

(2) In this Order, unless the context otherwise requires -

"the Assembly" ("*y Cynulliad*") means the National Assembly for Wales;

"contents" ("*cynnwys*") means any item or property of whatever description which is -

- (a) the property of the Assembly immediately prior to the transfer date; and
- (b) present in or on the land described in the Schedule hereto on the transfer date;

"HPW" ("*PIC*") means Health Professions Wales(b);

"land" ("*tir*") shall be construed in accordance with Schedule 1 to the Interpretation Act 1978(c), save that any reference to the transfer of land by virtue of this order shall be construed as including the

(a) 2003 p.4.

(a) 2003 c.4.

(b) Health Professions Wales was established by the Health Professions Wales (Establishment, Membership, Constitution and Functions) Order 2004 S.I. 2004/551 (W.55).

(c) 1978 c.30.

- (a) na therfynodd ei contract cyflogaeth â'r Cynulliad cyn y dyddiad trosglwyddo (boed drwy i hysbysiad ddod i ben, amser wedi dirwyn i ben neu fel arall): a
- (b) a gafodd gynnig cyflogaeth gyda PIC ac sydd wedi derbyn y gyflogaeth cyn y dyddiad trosglwyddo;

ystyr "cynnwys" ("*contents*") yw unrhyw item neu eiddo o ba ddisgrifiad bynnag -

- (a) sy'n eiddo'r Cynulliad yn union o flaen y dyddiad trosglwyddo; a
- (b) sy'n bresennol yn neu ar y tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i hyn ar y dyddiad trosglwyddo;

ystyr "y Cynulliad" ("*the Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

" ystyr "dyddiad trosglwyddo" ("*operational date*") yw 1 Ebrill 2004;

ystyr "PIC" ("*HPW*") yw Proffesiynau Iechyd Cymru(a);

dehonglir "tir" ("*land*") yn unol ag Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978(b), ac eithrio y dehonglir bod unrhyw gyfeiriad at drosglwyddo tir yn rhinwedd y gorchymyn hwn yn cynnwys trosglwyddo unrhyw drwydded o dan contract i ddefnyddio'r tir.

(3) Dehonglir bod unrhyw ddarpariaeth yn y gorchymyn hwn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, yn cynnwys cyfeiriad at drosglwyddo unrhyw hawliau a rhwymedigaethau gan y Cynulliad sy'n bodoli mewn perthynas ag eiddo o'r fath yn union o flaen y dyddiad trosglwyddo.

(4) Pan drosglwyddir eiddo, hawliau neu rwymedigaethau'r Cynulliad i PIC yn rhinwedd y Gorchymyn hwn, ymdrinnir ag unrhyw beth a wnaed gan neu mewn perthynas â'r Cynulliad mewn cysylltiad ag eiddo, hawliau a rhwymedigaethau o'r fath fel pe bai wedi ei wneud gan neu mewn perthynas â PIC.

Trosglwyddo tir o'r Cynulliad i PIC

2. Gydag effaith o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen trosglwyddir y tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i hyn o'r Cynulliad i PIC.

Trosglwyddo cynnwys etc o'r Cynulliad i PIC

3. Gydag effaith o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen trosglwyddir y cynnwys a bennir yn yr Atodlen i hyn, a phob eiddo, hawliau a rhwymedigaethau eraill a'r cofnodion sy'n berthnasol iddynt y mae gan y

(a) Sefydlwyd Proffesiynau Iechyd Cymru gan Orchymyn Proffesiynau Iechyd Cymru (Sefydlu, Aelodaeth, Cyfansoddiad a Swyddogaethau) 2004 O.S. 2004/551 (Cy.55).

(b) 1978 p.30.

transfer of any contractual licence for the use of land;

"records" ("*cofnodion*") means any material in whatever form or medium which conveys or is capable of conveying information and which is structured by reference to-

- (a) individuals or to criteria relating to individuals, in such a way that specific information relating to a particular individual is readily accessible; or
- (b) any property, rights or liabilities of the Assembly, in such a way that specific information relating to particular property, rights or liabilities is readily accessible;

"relevant employee" ("*cyflogai perthnasol*") means a person -

- (a) whose contract of employment with the Assembly has not terminated before the transfer date (whether by expiry of notice, effluxion of time or otherwise): and
- (b) who has been offered and has accepted before the transfer date employment with HPW;

"the transfer date" ("*y dyddiad trosglwyddo*") means 1st April 2004.

(3) Any provision in this order transferring property shall be construed, unless the context otherwise requires, as including a reference to the transfer of any rights and liabilities of the Assembly which exist in respect of such property immediately before the transfer date.

(4) Where property, rights or liabilities of the Assembly are transferred to HPW by virtue of this Order, anything done by or in relation to the Assembly in connection with such property, rights and liabilities shall be treated as if it had been done by or in relation to HPW.

Transfer of land from the Assembly to HPW

2. With effect from the transfer date the land described in the Schedule hereto shall be transferred from the Assembly to HPW.

Transfer of contents etc from the Assembly to HPW

3. With effect from the transfer date the contents in or on the land specified in the Schedule hereto, and all other property, rights and liabilities and records relating thereto to which the Assembly is entitled or subject, at the coming into force of this Order, in

Cynulliad hawl iddynt neu y mae'n ddarostyngedig iddynt, wrth i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, o ran arfer swyddogaethau cyn y dyddiad hwnnw a freiniwyd yn PIC yn rhinwedd Gorchymyn Proffesiynau Iechyd Cymru (Sefydlu, Aelodaeth, Cyfansoddiad a Swyddogaethau) 2004(a) o'r Cynulliad i PIC.

Trosglwyddo cyflogaeth perthnasol i PIC

4.-(1) Gydag effaith o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen, ymdrinnir â chontract cyflogaeth rhwng cyflogai perthnasol a'r Cynulliad fel pe bai wedi'i wneud yn wreiddiol rhwng y cyflogai perthnasol a PIC.

(2) Gydag effaith o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen, rhaid trosglwyddo cofnodion sy'n ymwneud â chyflogaeth perthnasol o'r Cynulliad i PIC.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(b).

2 Mawrth 2004

connection with the exercise before that date of functions vested in HPW by virtue of the Health Professions Wales (Establishment, Membership, Constitution and Functions) Order 2004(a) shall be transferred from the Assembly to HPW.

Transfer of relevant employees to HPW

4.-(1) With effect from the transfer date, a contract of employment between a relevant employee and the Assembly shall be treated as if it had originally been made between the relevant employee and HPW.

(2) With effect from the transfer date, records relating to relevant employees shall be transferred from the Assembly to HPW.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(b).

2nd March 2004

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Presiding Officer of the National Assembly

Erthyglau 2 a 3

Articles 2 and 3

YR ATODLEN

SCHEDULE

Y tir y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo

The land to which this Order applies

Tir ac adeiladau ar ail lawr Golate House Heol Eglwys Fair Caerdydd a gynhywsir mewn prydles ddyddiedig 9 Hydref 1997 ac a wnaed rhwng Dovey Estates Ltd (1) a Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrso, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru (2).

Office premises on 2nd floor of Golate House St Mary's Street Cardiff comprised in a lease dated the 9th October 1997 and made between Dovey Estates Ltd (1) and Welsh National Board for Nursing Midwifery and Health Visiting and the Secretary of State for Wales (2)

(a) O.S. 2004/551 (Cy55).

(b) 1998 p.38.

(a) S.I 2004/551 (W.55)

(b) 1998 c.38.

© Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W13/03/04

ON

ISBN 0-11-090879-1



9 780110 908793